Cymru ein dyfodol – ymateb CGGC

CYNNWYS

Cyflwyniad	2
Prif argymhellion	7
Adferiad gwyrdd a chyfiawn	8
Pobl a chymunedau wedi'u grymuso	14
Sector gwirfoddol gwydn	17

CYFLWYNIAD

Mae gwirfoddolwyr, grwpiau cymunedol a'r sector gwirfoddol ehangach wedi bod yn rhan dyngedfennol o'r ymdrech i gynorthwyo pobl a chymunedau ledled Cymru drwy argyfwng Covid-19. Mae cyflymder yr ymateb a'r gallu i gyrraedd pobl mewn ffyrdd na allai eraill eu gwneud wedi bod yn elfen nodweddiadol o'r ymateb i'r argyfwng. Elfen arall yw'r cydweithio, a'n gallu cyfunol i wneud byd o wahaniaeth i lesiant pobl gyda'n gilydd.

Yng nghanol trychineb a chaledu'r misoedd diwethaf, rydym wedi gorfod gweithio'n wahanol iawn. Mae hyn wedi creu cyfleoedd i ddysgu am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio a beth allai arwain at newid hirdymor. Mae'r adferiad yn cyflwyno cyfle unigryw i'r genhedlaeth hon fynd i'r afael â'r heriau hirdymor sy'n wynebu ein cymdeithas, yn ogystal â'r heriau uniongyrchol sydd o'n blaenau. Mae gan fudiadau gwirfoddol uchelgais i chwarae rhan lawn yn y gwaith o greu dyfodol gwell.

Mae'r argyfwng wedi amharu'n enfawr ar bob rhan o'r sector gwirfoddol. Rydym wedi gweld rhai pethau cadarnhaol – arloesedd cyflym, cydberthnasau newydd a newidiadau i ymddygiadau a barnau y mae llawer wedi bod yn ymgyrchu drostynt ers blynyddoedd. Mae llawer wedi bod yn negyddol – colli incwm sylweddol ar adeg pan fo cynnydd mewn galw, gwasanaethau wedi'u lleihau neu eu cau a chanlyniadau gwaeth fyth i'r bobl a'r cymunedau mwyaf agored i niwed. Bydd yr argyfwng yn arwain at newid dwys a pharhaol.

Isod, rydym wedi nodi'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu o'r misoedd diwethaf, a'n hargymhellion ar sut gall y llywodraeth a'r sector gwirfoddol weithio gyda'i gilydd i wneud y cyfraniad cyfunol mwyaf posibl at lesiant y dyfodol.

CEFNDIR

CGGC yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Wrth ddatblygu'r ymateb hwn, rydym wedi gwrando ar ein haelodau, y sector gwirfoddol a rhanddeiliaid ehangach ac wedi ystyried amrediad eang o adroddiadau ar effaith pandemig y coronafeirws ar y sector gwirfoddol a'r bobl y mae'n ei wasanaethu.

Rydym wedi cael cyswllt digyffelyb â'n haelodau a'r sector ehangach yn ystod y misoedd diwethaf. Mae mudiadau gwirfoddol wedi siarad â ni ynghylch yr heriau – a'r cyfleoedd – y maen nhw wedi'u hwynebu. Rydym wedi casglu tystiolaeth a data drwy'r ceisiadau i'n cynlluniau grantiau a benthyciadau brys (yn enwedig y ddau gynllun a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru) ac wedi gwrando drwy ein gwaith gyda Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a Cefnogi Trydydd Sector Cymru, a thrwy ymholiadau yr ydym wedi'u cael gan ein haelodau.

Gwnaethom hefyd gynnal cyfres o ddigwyddiadau ac arolygon agored a chyfranogol ar Baratoi ar gyfer Dyfodol Gwahanol. Gwnaeth y rhain ymdrin ag amrediad o bynciau, a ddewiswyd yn bennaf drwy bleidleisiau Twitter; cyllid cynaliadwy, gwirfoddoli a gweithredu cymunedol, darparu gwasanaethau, ymgysylltu a dylanwadu, y newid yn yr hinsawdd a'r economi llesiant. Gwnaeth mwy na 260 o bobl gymryd rhan yn y gyfres. Gwnaethom gydweithio â CLlLC ac Un Llais Cymru ar ddau ddigwyddiad. Gwnaethom hefyd gynnal gweminar ar y cyd gydag 'NHS Charities Together'. Mae'r adroddiad terfynol ar y sesiynau hyn yn crynhoi'r materion a godwyd.

Mae CGGC wedi bod yn gweithio gyda grŵp bach ac amrywiol o arweinwyr o'r sector gwirfoddol ledled Cymru i edrych ar sut gall y sector chwarae ei ran lawn mewn creu dyfodol gwell. Rydym wedi cyhoeddi cyfres o flogiau Dyfodol Gwell i Gymru o'r grŵp.

Gwnaeth CGGC a Llywodraeth Cymru gydgomisiynu cyfres o bapurau gwyntyllu a phodlediadau Llesiant Cymru yn y Dyfodol a oedd yn edrych ar gyfleoedd i'r sector greu newid cadarnhaol yng nghyd-destun Brexit a Covid-19. Mae'r pynciau'n ymdrin â'r newid yn yr hinsawdd, economi newydd a thrawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym wedi ystyried yr holl waith hyn er mwyn llywio'r ymateb hwn.

Y SECTOR GWIRFODDOL YNG NGHYMRU

Mae'r sector gwirfoddol yng Nghymru yn sector bywiog ac amrywiol, a gall fod yn anodd ei gategoreiddio:

- Mae'r sector gwirfoddol yn cynnwys elusennau cofrestredig, ond hefyd mentrau cymdeithasol, grwpiau cymunedol a grwpiau cyd-gymorth diweddar.

- Addysg/hyfforddiant, iechyd a chwaraeon yw'r meysydd gwaith mwyaf i fudiadau gwirfoddol. Ond, mae'r sector yn ymwneud ag amrediad eang o feysydd a gweithgareddau.

Mae elusennau Cymru yn llai na'u helusennau cyfatebol yn Lloegr a'r Alban:

- 32,000 o fudiadau gwirfoddol, ond dim ond 8000 o elusennau.

- Y ganran uchaf o ficroelusennau yn y DU (53%). Ac mae 32% arall yn elusennau bach.[1]

- Mae'r incwm elusennol y pen yn hanner yr hyn y mae yn Lloegr a'r Alban (oddeutu £400 y pen yng Nghymru ac £800 yn Lloegr a'r Alban). Fodd bynnag, lleoliad cofrestredig elusennau mawr sy'n rhannol gyfrifol am hyn.

MATERION (HERIAU A CHYFLEOEDD) AR GYFER CYMDEITHAS

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sut i gael y cyfraniad mwyaf posibl o weithrediadau gwirfoddol a chymunedol ar gyfer adferiad Cymru. Fodd bynnag, mae nifer o heriau mwy hirdymor a fydd yn cyfyngu'r potensial i gael y cyfraniad mwyaf posibl.

Heriau economaidd mwy hirdymor

Mae pob rhan o'r sector yn disgwyl dirwasgiad, a chynnydd mewn diweithdra a thlodi. Mae llawer hefyd yn gofidio y bydd 'ton' o swyddi'n cael eu colli pan fydd y cynlluniau ffyrlo yn dod i ben. Bydd cymunedau llai gwydn yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan hyn, ynghyd â phobl ar incymau is, neu rai o grwpiau difreintiedig.

Rydym yn debygol o weld cynnydd yn yr angen am ddau fath o gymorth: rhyddhad tlodi uniongyrchol a chymorth gyda chyflogadwyedd a sgiliau.

[1] Micro: llai na £10,000, Bach: llai na £100,000

Mae'r sector gwirfoddol yn effeithiol o ran cyrraedd pobl sydd wedi'u hymyleiddio fwy gan gymdeithas. O ran yr ail fath o gymorth, mae Cyllid Ewropeaidd yn debygol o ddod i ben ar ei ffurf gyfredol ac mae ansicrwydd ynghylch cyllid i'w ddisodli.

Mae awydd ehangach i symud i fodel economaidd gwahanol yn y dyfodol sy'n rhoi pwyslais penodol ar gefnogi llesiant a chynaliadwyedd. Mae gan Gymru nifer o bolisïau a fframweithiau cyfreithiol i gefnogi hyn, ond mae angen canolbwyntio mwy ar hyn er mwyn sicrhau bod y sector gwirfoddol yn bwydo i mewn i hyn yn gyson.

Heriau iechyd mwy hirdymor

Mae llai o ddiagnosio newydd ar gyfer amrediad o gyflyrau yn golygu y bydd y cyflyrau hyn yn amlygu eu hunain mewn ffyrdd mwy difrifol yn y dyfodol. Mae hefyd amrediad eang o bryderon ynghylch effaith y cyfyngiadau symud / hunanynysu / gwarchod ar iechyd meddwl pobl.

Mae darpariaeth iechyd yn y gymuned wedi'i hybu gan hyn, gan gynnwys drwy bartneriaethau'r sector gwirfoddol â byrddau iechyd (e.e. presgripsiynau) a chefnogi llesiant pobl. Mae gwerth cymdeithasol yr ymateb cymunedol wedi bod yn arwyddocaol.

Canfuwyd nad oeddem yn barod am y pandemig ac mae wedi amlygu gwendidau sylfaenol yn y system iechyd a gofal cymdeithasol. Mae COVID-19 yn fwy tebygol o lawer o effeithio ar bobl o gefndiroedd BAME ac mae'n gwaethygu anghydraddoldebau iechyd sydd eisoes yn bodoli.

Yn ogystal â'r heriau mwy hirdymor hyn, bydd y sector gwirfoddol yn wynebu heriau eraill mwy hirdymor fel y newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng byd natur, twf technoleg ddigidol a deallusrwydd artiffisial a'u heffaith ar natur gwaith, y lefelau cyfredol o anghydraddoldeb ac ar boblogaeth sy'n heneiddio. Bydd angen i'r sector newid er mwyn addasu i'r rhain.

Heriau amgylcheddol mwy hirdymor

Mae gweithredu ar yr hinsawdd a'r amgylchedd wedi cael mwy o sylw ar yr agenda wleidyddol yn y blynyddoedd diwethaf, a hynny mewn modd

digynsail, wrth i raddfa'r her ddod yn fwy amlwg. Bydd fwyfwy o bwysau ar lywodraethau i ddatgarboneiddio'u heconomi ac adfer eu bioamrywiaeth.

Mae'r ffaith bod natur wedi dod yn fwy gweladwy a llygredd aer wedi lleihau drwy gydol yr argyfwng hwn wedi dangos y gellir cyflawni hyn. Yn yr un modd, mae'r ffaith bod pobl wedi ailgysylltu â natur yn eu cymunedau lleol yn cyflwyno ffordd i bobl ymhél yn lleol â'r argyfyngau natur a hinsawdd.

Mae ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn her ac yn gyfle. Mae llawer o'r sector gwirfoddol yn pryderu ynghylch yr effaith o beidio â bod ynghlwm â chamau diogelu amgylcheddol yr UE gyfan, yn ogystal â'r posibilrwydd y bydd diogelwch amgylcheddol yn gwanhau yn sgil cytundebau masnach newydd. Ond, mae cyfle nawr am fwy o gymorth amgylcheddol drwy bolisïau amaeth a chaffael.

Mae'r mater hwn wedi bod yn pwyso'n drwm ar feddwl pobl iau sydd wedi sbarduno'r camau cymdeithasol diweddar ar y materion hyn ac sy'n ymwybodol o'r effaith y bydd y newid hinsawdd yn ei chael ar eu dyfodol eu hunain.

CAEL Y CYFRANIAD MWYAF POSIBL O WEITHREDIADAU GWIRFODDOL A CHYMUNEDOL

Mae'r ymateb hwn yn amlinellu cynigion i fanteisio i'r eithaf ar gyfraniad y sector gwirfoddol i'r gwaith adfer ar ôl COVID. Mae'n edrych ar amrediad eang o faterion sy'n hanfodol i alluogi'r sector gwirfoddol i gael yr effaith fwyaf bosibl.

Nid yw hyn yn canolbwyntio ar gymorth gan Lywodraeth Cymru yn unig. Gellir ennyn gwahanol gyfraniadau gan bob rhan o'r gymdeithas er mwyn galluogi hyn. Mae angen i'r sector gwirfoddol ei hun ddatblygu dulliau gweithredu newydd er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl. Mae CGGC, ynghyd â Cefnogi Trydydd Sector Cymru, Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a mudiadau seilwaith eraill yn adnoddau pwerus ar gyfer newid go iawn pan fyddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd, a chyda'r llywodraeth.

PRIF ARGYMHELLION

Rydym wedi gosod ein hymateb o dan dair thema. Byddwn yn edrych ar y rhain ymhellach ac yn manylu arnynt o dan benodau ar wahân. Yma, nodir nifer o gynigion craidd a allai fwyafu cyfraniadau'r sector yn ein tyb ni.

Adferiad gwyrdd a chyfiawn

- Rhaglen gwirfoddoli ieuenctid sy'n adeiladu sgiliau a llesiant, yn ogystal â galluogi pobl ifanc i ddod ynghyd a chymryd camau ar y materion sy'n agos at eu calonnau, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgir o'r argyfwng ac o raglenni cyfredol Llywodraeth Cymru.
- Rhaglen cyflogadwyedd a sgiliau uniongyrchol a arweinir gan y sector gwirfoddol, gan adeiladu ar ddarpariaeth gyfredol sydd eisoes ar droed
- Datblygu'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu am gydweithio ar draws sectorau er mwyn rhyddhau gallu'r sector gwirfoddol i greu adferiad gwyrdd a chyfiawn

Cymunedau a phobl sydd wedi'u grymuso

- Cefnogi rhaglen Cyfoeth Cymunedol er mwyn adeiladu'r strwythurau a'r gallu i rymuso cymunedau, gan ystyried y gwersi o'r argyfwng a chyllid amgen fel Asedau Segur.
- Sefydlu Grŵp Gweithredu Gwirfoddoli am amser cyfyngedig er mwyn ymwreiddio'r hyn a ddysgwyd o Covid-19 yn ogystal â rhaglenni cyfredol a chefnogi'r seilwaith gwirfoddoli i addasu i gyfleoedd newydd sy'n dod i'r amlwg.

Sector gwirfoddol gwydn

- Gweithio gyda seilwaith y sector gwirfoddol i ddarparu amrediad o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar wydnwch a chefnogi'r sector i arloesi ac addasu mewn ymateb i newid ac ansicrwydd sylweddol.
- Darparu cymorth ariannol er mwyn adeiladu gwydnwch ar draws y sector gwirfoddol, galluogi mudiadau i gyflwyno prosiectau sy'n cefnogi adferiad gwyrdd a chyfiawn a rheoli'r bwlch ariannol arwyddocaol sy'n wynebu'r sector.

ADFERIAD GWYRDD A CHYFIAWN

Bydd ymdrech genedlaethol i ailadeiladu ein cymdeithas a'n heconomi ar ôl yr achosion o COVID-19. Rydym yn credu y dylai'r ymdrech hon fod yn seiliedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd cefnogi'r gwaith adfer hwn yn her fawr i'r sector gwirfoddol a bydd gan bob rhan ohono gyfraniad i'w wneud. Mae hanfodol ein bod yn cynnwys pob rhan o'r gymdeithas, ledled ein holl gymunedau.

Mae'r sector gwirfoddol yn credu'n gryf na ddylai'r gwaith adfer fod yn ymdrech i ddychwelyd i'r system a oedd yn bodoli cyn hyn, ond yn hytrach, yn gyfle cenedliadol i sicrhau bod yr adferiad economaidd yn wyrdd ac yn gyfiawn; ei fod yn cynnwys pawb ac yn ein cadw o fewn ein terfynau amgylcheddol.

Mae arnom angen datrysiadau integredig sy'n ymateb i'r cyfleoedd lluosog sy'n cysylltu ar draws gwahanol rannau o'n sector, a chydag eraill, er mwyn gwneud mwy o wahaniaeth gyda'n gilydd. Mewn cyfnod o adnoddau heriol, mae angen datrysiadau integredig sy'n gallu mynd i'r afael â heriau cymdeithasol mawr, yn y tymor byr a'r hirdymor. Bydd yn rhaid cael cydweithio a modelau llywodraethu hefyd er mwyn cefnogi hynny.

Bydd pob rhan o gymdeithas Cymru yn cyd-dynnu i sicrhau bod yr adferiad yn effeithiol a'i fod yn wyrdd ac yn gyfiawn i Gymru a thu hwnt. Bydd y sector gwirfoddol yn gweithio gyda'r sectorau cyhoeddus a phreifat er mwyn gwneud mwy o wahaniaeth gyda'n gilydd.

GWEITHREDU GWIRFODDOL AR GYFER IECHYD A LLESIANT

Roedd yr achosion o COVID-19 yn argyfwng iechyd cyhoeddus a bydd yn cymryd ymdrech enfawr i adfer ein gwasanaeth iechyd gwladol i'w lefelau blaenorol – heb sôn am ei wella y tu hwnt i'r lefelau hynny. Yn yr un modd, mae'r argyfwng wedi dangos y gallwn wneud mwy o lawer yn ein cymunedau i leihau'r pwysau ar y GIG. Mae llawer o bobl wedi'u cynorthwyo gan grwpiau cymunedol ac elusennau cofrestredig drwy gydol yr argyfwng hwn neu wedi canfod bod eu mannau cymunedol lleol yn rhan bwysig o gynnal eu llesiant eu hunain.

Bydd angen i waith ar drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ddibynnu ar y rôl ataliol sydd gan y sector i'w chwarae mewn gweithgareddau nad ydynt yn rhan o'r gwasanaeth iechyd ffurfiol, ond sy'n dangos gwelliannau i iechyd a llesiant.

Mae'r sector gwirfoddol yn cynnwys amrywiaeth o grwpiau sy'n dod â lleisiau dinasyddion ynghyd, yn enwedig lleisiau'r grwpiau hynny sy'n agored i niwed.

Gall mudiadau gwirfoddol a chymunedol fod yn rhan dyngedfennol o'r gwasanaeth iechyd yn y dyfodol. Dylai Llywodraeth Cymru a byrddau iechyd wneud y canlynol:

- Cyflwyno rhaglenni ataliol a phresgripsiynu cymdeithasol arwyddocaol (a chynaliadwy) ar draws pob ardal bwrdd iechyd, gan symud ymlaen o brosiectau tameidiog ac ystyried gwersi ar yr hyn a weithiodd yn dda yn yr ymateb i covid-19.
- Cynnwys grwpiau cymunedol ac elusennau o bob maint mewn gofal iechyd ataliol a phresgripsiynu cymdeithasol. Mae'n rhaid i hyn gynnwys y cam cynllunio yn ogystal â'r cam cyflenwi.
- Archwilio i 'wasanaeth iechyd naturiol' sy'n cysylltu cadwraeth leol ag iechyd a llesiant ac sy'n defnyddio mannau awyr agored i gefnogi llesiant, gan gweithio gyda grwpiau gwirfoddol i wneud hynny.
- Gwella maint y caffael sy'n mynd i fudiadau gwerth cymdeithasol, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Datblygu canllawiau Cymru gyfan ar gyfer diogelu yng nghyd-destun atal a phresgripsiynu cymdeithasol.

GWEITHREDU GWIRFODDOL AR GYFER YR AMGYLCHEDD A BYD NATUR

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r cyhoedd wedi bod yn galw ar wleidyddion i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng natur. Mae'r newid yn yr hinsawdd eisoes wedi'i amlygu fel blaenoriaeth gyffredin gan Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (TSPC) a dylid ei ymwreiddio yn yr ymateb economaidd.

Mae'r adferiad yn rhoi cyfle gwirioneddol i Lywodraeth Cymru ymateb i'r galw hwnnw gyda chamau gweithredu cadarn. O ganlyniad i gyfle unigryw y genhedlaeth hon i fuddsoddi yn yr adferiad hwn, gallwn ni sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu cymryd ar yr hinsawdd a byd natur yng Nghymru.

Drwy gydol y pandemig, mae llawer o bobl Cymru wedi ailgysylltu â byd natur yn eu cymunedau lleol, ac mae byd natur wedi ailfywiogi wrth i'r llygredd aer a gweithgarwch dynol leihau. Dengys ymateb y cyhoedd i'r tueddiadau hyn fod pobl Cymru yn falch iawn o'u natur leol ac yn rhwymedig iddi. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod natur a'r hinsawdd yn ganolog i'n gwaith adfer.

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gefnogi'r adferiad gwyrdd hwn drwy wneud y canlynol:

- Sicrhau bod cyllid ar gyfer prosiectau amgylcheddol a byd natur yn y rhaglenni adfer. Mae hyn yn cynnwys grŵp cynghori ar adfer allanol Llywodraeth Cymru dan arweiniad y Cwnsler Cyffredinol drwyddo i grwpiau adfer sy'n canolbwyntio ar y sector.
- Cryfhau lle'r sector gwirfoddol o fewn y broses datblygu polisïau. Gall rhwydweithiau Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW) a TSPC chwarae rhan hanfodol mewn cysylltu'r ymateb cymunedol ar lawr gwlad â pholisïau cenedlaethol a galluogi gwybodaeth i gael ei throsglwyddo.
- Mae cefnogi'r gweithgarwch sydd ar waith ar yr hinsawdd a chadwraeth ar lefel leol yn rhan dyngedfennol o'r ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.
- Gweithio i ymhel yr arweinwyr cymunedol datblygol yn y newid yn yr hinsawdd a chynnal yr ymateb cymunedol. Bydd hyn yn cynnwys rhyddhau pŵer datrysiadau a arweinir gan y gymuned a'r sector gwirfoddol, gan ddefnyddio'u hasedau ac integreiddio'r rhain yn y sbardunau sy'n cael eu datblygu o fewn yr Economi Llesiant / Economi Sylfaenol – gan gynnwys caffael. Bydd hyn yn cynnwys adeiladu ar fodelau ariannol gwahanol, defnyddio Buddsoddiad Cymunedol Cymru a modelau eraill ar gyfer menter gymdeithasol.
- Cefnogi ymarferiad 'calon a meddwl' er mwyn datblygu dealltwriaeth ar draws y sector o sut gall mudiadau effeithio ar y newid yn yr hinsawdd wrth gyflawni eu prif ddiben.

POBL IFANC A GWEITHREDU GWIRFODDOL

Disgwylir i bobl ifanc gael eu heffeithio'n arbennig o wael gan y dirwasgiad – gyda'r tarfiad ar eu haddysg a'r cyfraddau diweithdra ymhlith ieuenctid yn debygol o fod yn uwch na gweddill y boblogaeth. Mae perygl gwirioneddol y bydd adferiad annheg yn gwaethygu anghydraddoldebau rhwng cenedlaethau ac o bosibl yn creu cenhedlaeth 'goll'. Gall y sector gwirfoddol

chwarae rhan mewn darparu cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc, sydd hefyd yn mynd i'r afael â materion allweddol y mae pobl ifanc yn pryderu yn eu cylch.

Awgryma gwerthusiadau fod rhaglenni gwirfoddoli ieuenctid wedi bod yn effeithiol o ran adeiladu cyfalaf cymdeithasol, ac mae rhaglenni gwirfoddoli'n gyffredinol wedi cyflawni canlyniadau cryf o ran cyflogadwyedd a sgiliau a gwella iechyd meddwl.

Gall Llywodraeth Cymru gefnogi cyfleoedd i bobl ifanc drwy weithio gyda'r sector gwirfoddol i wneud y canlynol:

- Sefydlu rhaglen gwirfoddoli ieuenctid, dan arweiniad pobl ifanc, sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â materion mawr fel y newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng natur, iechyd meddwl a chysylltiadau sy'n pontio'r cenedlaethau. Byddai hon yn cefnogi ac yn adeiladu ar gyfleoedd sydd eisoes yn bodoli yn y meysydd hyn. Dylai pobl ifanc allu arwain er mwyn cyfrannu eu datrysiadau eu hunain i'r materion mawr hyn.

Gallai hyn gael effaith drawsbynciol ar y gwaith adfer drwy wella cyflogaeth a sgiliau pobl ifanc, cynyddu cyfalaf cymdeithasol, dod â phobl ynghyd i wella goddefgarwch a chydraddoldeb, hybu llesiant meddwl cyfranogwyr a grymuso cymunedau.

ECONOMI NEWYDD: SGILIAU A CHYFLOGAETH

Mae disgwyliad eang bellach y bydd yna ddirwasgiad ar ôl pandemig COVID-19. Mae CGGC yn sylweddoli bod angen cefnogi cyflogadwyedd a sgiliau ar gyfer swyddi'r dyfodol, gan gynnwys swyddi gwyrdd.

Yn ogystal, mae gan lawer o rannau o Gymru hanes o fod â lefelau is o allbwn economaidd na gweddill Cymru. Gyda gostyngiad sylweddol yn nifer y swyddi yn yr economi, mae'r sector yn disgwyl pwyslais ar sgiliau a chyflogadwyedd, yn ogystal â chreu swyddi.

Mae cymunedau llai gwydn yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan hyn, ynghyd â phobl ar incymau is neu bobl o grwpiau difreintiedig.

Rydym yn debygol o weld cynnydd yn yr angen am ddau fath o gymorth: rhyddhad tlodi uniongyrchol a chymorth o ran cyflogadwyedd a sgiliau. Mae'r sector gwirfoddol yn effeithiol o ran cyrraedd pobl sydd wedi'u hymyleiddio fwy gan gymdeithas. Gall y sector gwirfoddol gyfrannu at y gwaith o gefnogi sgiliau a chyflogadwyedd ar gyfer swyddi'r dyfodol, gan gynnwys swyddi gwyrdd.

Bydd dod â phobl yn ôl i'r byd gwaith yn dasg fawr i bob llywodraeth yn ystod y bum i ddeg mlynedd nesaf. Mae'r sector gwirfoddol wedi profi ei fod yn gallu gweithio gyda chymunedau ac unigolion sydd yn bellach i ffwrdd o'r farchnad lafur ac yn gallu sicrhau bod gwasanaeth o ansawdd ar gael i bawb.

Dylai ychydig o'r cyllid ar gyfer gwaith ar gyflogadwyedd a sgiliau yn y dyfodol gael ei neilltuo i'r sector gwirfoddol er mwyn sicrhau hyn. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Cefnogi datblygiad rhaglenni cyflogadwyedd a arweinir gan y gymuned a'r sector gwirfoddol, gan adeiladu ar y ddarpariaeth gyfredol sydd eisoes yn bodoli
- Ymrwymo i glustnodi cyfran o'r gyllideb sgiliau a chyflogadwyedd cyffredinol ar gyfer grwpiau anoddach eu cyrraedd, gyda chydnabyddiaeth fod asiantaethau'r sector gwirfoddol yn rhan allweddol o gyflawni hyn.
- Sicrhau bod prentisiaethau a rhaglenni gwaith tebyg yn recriwtio o'r amrywiaeth lawn o gymunedau Cymru a'u bod yn hygyrch i gyflogwyr y sector gwirfoddol.

ECONOMI NEWYDD: BUSNESAU CYMDEITHASOL

Ni fydd y dirwasgiad a fydd yn dilyn y pandemig coronafeirws hwn yn effeithio ar bob cymuned yr un fath. Y cymunedau mwyaf difreintiedig fydd yn cael eu bwrw galetaf. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ymdrechion i hybu'r economi yn cynnwys dulliau o sicrhau bod economïau cymunedau ledled Cymru yn cael eu cefnogi. Mae busnesau cymdeithasol yn ffordd allweddol o wneud hyn.

Fframwaith ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfiawnder cymdeithasol yw Toesen Cymru 2020, a luniwyd i wneud yn siŵr y gall y ffordd y caiff Cymru ei datblygu yn y dyfodol sicrhau llwyfan gymdeithasol sylfaenol

i bawb, gan hefyd fyw o fewn ein terfynau amgylcheddol. Cafodd ei lunio gan gynghrair eang o fudiadau o'r sector gwirfoddol a dylai ffurfio rhan arwyddocaol o ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â datblygu economaidd.

Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd gweithio ar draws sectorau. Mae integreiddio a chydweithio'n allweddol i ddatblygu cynaliadwy.

Gan adeiladu ar ei gwaith ar yr Economi Sylfaenol, dylai Llywodraeth Cymru gefnogi mentrau cymdeithasol lleol a chymunedau lleol i ddod yn sbardunau economïau lleol. Gall wneud hyn drwy:

- Cydnabod yr effaith economaidd y mae'r sector gwirfoddol yn ei chael mewn cymunedau ledled Cymru. Er enghraifft, mae oddeutu 938,000 o wirfoddolwyr yn cyfrannu 145 miliwn o oriau bob blwyddyn, sy'n werth £1.7 biliwn[2]. Mae hyn yn gyfwerth ag oddeutu 3.1% o gynnyrch domestig gros (GDP) Cymru
- Rhoi Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol ar waith, sy'n seiliedig ar y weledigaeth ddiweddar ar gyfer Mentrau Cymdeithasol.
- Datblygu amrediad ehangach o gyllid amgen, fel buddsoddiad cymdeithasol a chyllid gwaddol neu gefnogi mudiadau i symud i fodel cyllido mwy amrywiol.
- Adeiladu ar y gwaith o sefydlu Cymuned Ymarfer Cronfa Her yr Economi Sylfaenol[3] er mwyn dwyn pobl ynghyd o bob rhan o'r sector/sectorau i gydweithio a dysgu.

[2] Wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio'r cyflog gros cyfartalog fesul awr ar gyfer gweithwyr amser llawn yng Nghymru yn 2019, sef £13.53.
[3] Dyfarnwyd y contract ar gyfer hwn i Cynnal Cymru, sy'n rhan o deulu elusennau CGGC.

POBL A CHYMUNEDAU WEDI'U GRYMUSO

Drwy gydol yr argyfwng, mae cymunedau wedi dod ynghyd i ofalu am ei gilydd a chefnogi llesiant ei gilydd. Mae'r ymatebion i bandemig COVID-19 wedi dangos pŵer pobl sy'n dod ynghyd o'u gwirfodd i greu datrysiadau lleol a helpu ei gilydd.

Mae llawer o bobl wedi ailgysylltu â'u cymunedau, yn enwedig â mannau natur a chyfleusterau cymunedol lleol. Mae eraill wedi ailgysylltu â'u cymunedau yn sgil grwpiau cymunedol a ymatebodd yn gyflym ac yn effeithiol i COVID-19. Yr hyn sy'n amlwg yw bod cymunedau, a chamau gweithredu cymunedol, wedi bod yn ganolog i les a llesiant pobl yn ystod yr argyfwng hwn.

Rydym wedi gweld diddordeb o'r newydd mewn gwirfoddoli, naill ai'n ffurfiol neu fel rhan o gamau gweithredu cymunedol digymell. Mae mwy na 18,000 wedi cofrestru gyda Gwirfoddoli Cymru, ac mae llawer mwy wedi gwirfoddoli ar gyfer ymdrechion gwirfoddol cenedlaethol, ac mae grwpiau cyd-gymorth wedi ymddangos ar hyd a lled Cymru.

Er bod llawer o'r ymdrechion hyn wedi'u hanelu'n benodol at bandemig y coronafeirws, mae'n amlwg y gall cymunedau, gyda'r cymorth cywir, helpu ei gilydd gyda chamau gweithredu lleol yn y tymor hwy. Ond bydd angen cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i wneud hyn, gan ddechrau gyda'r egwyddor mai grymuso cymunedau yw'r ffordd fwyaf effeithiol o wella llesiant mewn cymunedau. Yng nghyd-destun y polisïau cenedlaethol cywir sy'n mynd i'r afael â'r materion mawr sy'n wynebu Cymru heddiw, gall cymunedau hybu llesiant drwy gael eu grymuso.

Mae mudiadau gwirfoddol a chymunedol wedi galluogi'r sector cyhoeddus i gyflwyno ymateb mwy effeithiol cymaint ag i'r gwrthwyneb. (Dyma fu ein profiadau ni a phobl eraill.) Gwnaeth arolwg ledled y DU gan y New Local Government Network (Saesneg yn unig) amlygu'r ffaith bod y mwyafrif helaeth o benaethiaid cynghorau (96 y cant) yn credu bod cyfraniad grwpiau cymunedol i ymdrechion COVID-19 eu cynghorau wedi bod yn 'arwyddocaol' neu'n 'arwyddocaol iawn'.

Mae angen i'r sector gwirfoddol fynd i'r afael â bylchau allweddol ym meysydd amrywiaeth, cynhwysiant a chydraddoldeb. Nid yw gwaith y sector

bob amser wedi sicrhau y gall pobl o gefndiroedd gwahanol wirfoddoli a chymryd rhan yn eu cymunedau (o ran lle neu ddiddordeb) ar faterion sy'n agos at eu calonnau.

GWEITHREDU CYMUNEDOL

Mae datblygu gallu cymunedol a seilwaith cymdeithasol yn allweddol i gynnal a datblygu'r ymateb cymunedol a gwella llesiant pobl leol. Mae hyn yn arbennig o wir am ardaloedd tlotach.

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fuddsoddi yn y seilwaith er mwyn sicrhau bod gweithredu cymunedol yn bosibl. Mae hyn yn cynnwys:

- Datblygu rhaglen cyfoeth cymunedol i gynorthwyo grwpiau gwirfoddol mewn cymunedau sy'n wynebu amddifadedd lluosog a phrinder cyfleusterau lleol, er mwyn datblygu gallu cymunedol mewn modd a benderfynir gan fudiadau lleol. Gellid cyllido hon drwy gynllun asedau segur arfaethedig Llywodraeth y DU.
- Rhoi mesurau ar waith i gynnal ymateb gwirfoddolwyr a chymunedau, gan weithio ar draws mudiadau gwirfoddol yn y gymuned, Cefnogi Trydydd Sector Cymru a chynghorau tref a chymuned. Bydd ymateb cynaliadwy yn gofyn i ni symud tuag at fodel llywodraethu sy'n galluogi, ac mae'n debygol y bydd angen cyllid sy'n canolbwyntio ar le ar hwn. Gwnaeth prosiect Grymuso Cymunedau CGGC nodi nifer o faterion allweddol, gan gynnwys; bod yn eglur ynghylch rôl lle mewn datblygiadau, canolbwyntio ar ddatblygiadau sy'n seiliedig ar asedau, a gwerthfawrogi mudiadau cyfalaf cymdeithasol yn ogystal â mudiadau angori cymunedol.
- Gweithio gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol a chyrff eraill er mwyn sicrhau bod y sgiliau a'r staff yn eu lle i gynorthwyo mudiadau cymunedol, gan gynnwys grwpiau cyd-gymorth.
- Ailwampio ei pholisi ar asedau cymunedol gan ddefnyddio dulliau Datblygu Cymunedol ar sail Asedau a chynorthwyo cymunedau i gael gafael ar yr asedau hyn a'u datblygu, dan arweiniad grwpiau lleol.

GWIRFODDOLI

Diolch i seilwaith gwirfoddoli Cymru gyfan a oedd eisoes yn bodoli, ynghyd â chymunedau agos â hanes o gynorthwyo'i gilydd, mae cyfle gwych gan Gymru i gynnal yr ymchwydd hwn mewn gwirfoddoli.

Gwyddom hefyd bod gwirfoddoli'n cynnig buddion, nid yn unig i fudiadau gwirfoddol a phobl sy'n derbyn gwasanaethau, ond i wirfoddolwyr hefyd[4].

Dylai gwirfoddoli hefyd fod yn rhan allweddol o ymateb i heriau mawr heddiw ac yfory – newidiadau economaidd; yr argyfyngau natur a hinsawdd; y disgwyliadau cynyddol ar iechyd a gofal cymdeithasol, a phoblogaeth sy'n heneiddio. Amlinellir ein cynigion ar gyfer rhaglen gwirfoddoli ieuenctid ym mhennod 1.

Mae natur gwirfoddoli hefyd yn newid ac mae angen seilwaith i ymateb i gymorth sy'n pontio rhwng gwirfoddoli ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r argyfwng hefyd wedi helpu i gyrraedd gwahanol fathau o wirfoddolwyr; er enghraifft, oedran canolrifol gwirfoddolwyr Caerdydd oedd 36 ac roedd 45% o'r gwirfoddolwyr yn ddynion. Nid yw'r garfan oedran hon wedi cymryd rhan mewn gwirfoddoli ffurfiol yn draddodiadol. Rydym hefyd wedi gweld mwy o wirfoddoli ymhlith grwpiau ansefydledig.

Gall Llywodraeth Cymru rymuso mudiadau gwirfoddol drwy wneud y canlynol:

- Sefydlu Grŵp Gweithredu Gwirfoddoli annibynnol yn benodol ar gyfer ystyried y gwersi a ddysgwyd yn ystod y cyfyngiadau symud ac ymwreiddio arfer da er mwyn mwyafu potensial gwirfoddoli yn ogystal â datblygu'r seilwaith gwirfoddoli ymhellach.
- Buddsoddi yn y 'seilwaith' gwirfoddoli – o ran platfformau a phobl – a fydd yn galluogi'r amrywiaeth o bobl i gyfrannu drwy wirfoddoli mewn ffyrdd diogel a gwobrwyol.
- Cefnogi'r seilwaith hwn i fod yn hygyrch i amrediad ehangach o garfanau a dulliau gwirfoddoli, gan efelychu'r ymatebion a welwyd i COVID-19.

[4] Er enghraifft, gweler gwerthusiadau diweddar Grant Gwirfoddoli Cymru a Gwirfoddoli Ieuenctid yn ogystal ag adroddiad diweddar UKRS ar wirfoddoli ar gyfer Llywodraeth Cymru.

- Rhoi Cam Gweithredu 32 o'r **Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol** ar waith drwy gomisiynu 'rhaglen waith i ddeall cyfraniad gwirfoddolwyr a gofalwyr [at y GIG a darpariaeth gofal] er mwyn llywio cynlluniau gweithlu'r dyfodol. Dylai hon ystyried gwirfoddoli y tu allan i strwythurau GIG ffurfiol mewn ffyrdd sy'n cefnogi iechyd y cyhoedd.'

SECTOR GWIRFODDOL GWYDN

Mae pandemig y coronafeirws wedi newid y sector gwirfoddol mewn ffordd na fyddai unrhyw un wedi'i disgwyl yn gynharach y flwyddyn hon. Mae'r sector wedi gorfod trawsnewid y ffordd y mae'n gweithredu ac wedi gweld cwymp aruthrol yn ei incwm – a hyn i gyd wrth i'r galw barhau i gynyddu. Yn ystod y blynyddoedd nesaf, disgwylir y bydd y sector gwirfoddol yn newid yn aruthrol – ac nid o reidrwydd mewn ffordd gadarnhaol.

Roedd llawer o'r tueddiadau hyn yn bodoli cyn y pandemig, ond mae'r rhain wedi gwaethygu yn sgil yr argyfwng. Fodd bynnag, mae angen i'r sector gwirfoddol baratoi ar gyfer y dyfodol y bydd yn ei wynebu yn y tymor hwy – o ran ei waith annibynnol ei hun ac o ran cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Po fwyaf gwydn yw'r sector gwirfoddol, mwya'n byd y gall gefnogi'r gwaith o gadw'r sector cyhoeddus yn wydn.

YMGYSYLLTU A CHYDWEITHIO

Mae'r pandemig wedi amlygu'r rôl ganolog sydd gan fudiadau gwirfoddol a chymunedol o ran ymateb i'r argyfwng uniongyrchol (ac argyfyngau o'r fath yn gyffredinol), ochr yn ochr â phartneriaid o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Mae'r sector gwirfoddol a'i bartneriaid wedi elwa ar yr ymgysylltiad hwn. Yn aml, mae wedi golygu y gall y sector gwirfoddol adlewyrchu barn ei ddefnyddwyr gwasanaethau mewn cynlluniau pandemig ac i'r sector cyhoeddus, gan alluogi'r sector gwirfoddol i gyflenwi'n fwy effeithiol.

Fodd bynnag, mae'r cydweithio hwn wedi amrywio ledled Cymru. Ceir enghreifftiau o gydweithio rhagorol o fewn ac ar draws sectorau. Mae'n rhaid i ni fanteisio ar y cyfle hwn i ddysgu a chryfhau'r cydweithio hwn a gwneud yn siŵr bod pawb yn cydweithio drwyddi draw.

Gall Llywodraeth Cymru wneud hyn drwy:

- Ddatblygu polisi i symud sector cyhoeddus Cymru tuag at fod yn gyfrwng grymuso ar gyfer cymunedau.

- Rhoi llais y dinesydd wrth wraidd prosesau cynllunio gwasanaethau a datblygu polisïau drwy ymwreiddio dulliau cyfranogi llwyddiannus wrth ymgysylltu â dinasyddion, fel cynulliadau dinasyddion, dulliau cyd-gynhyrchu a chyllidebu cyfranogol. Dylid talu sylw penodol at gynnwys grwpiau wedi'u hymyleiddio o fewn hyn, gan gynnwys pobl ifanc a phobl o gefndiroedd BAME.

- Ailystyried ei rôl a'i dull gweithredu o ran cyllido a chomisiynu, a'i dull o fynd ati i gefnogi ymatebion a arweinir gan gymunedau, ar ôl dysgu o arfer gorau mewn ymgysylltu gan gyrff rhanbarthol a lleol o'r sector cyhoeddus.

- Sicrhau bod llais y sector gwirfoddol yn cael ei chlywed mewn trafodaethau ynghylch partneriaeth gymdeithasol yn y dyfodol.

Technoleg ddigidol

Mae mudiadau gwirfoddol wedi newid i gael gwasanaethau digidol ar-lein yn andros o gyflym er mwyn ymateb i'r argyfwng, boed hynny'n symud Eisteddfodau ar-lein, mudiadau diwylliannol sy'n darparu adloniant a diwylliant ar-lein, grwpiau iechyd sy'n cysylltu â buddiolwyr neu grwpiau cyd-gymorth sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol.

Fodd bynnag, mae'r misoedd diwethaf wedi amlygu pa mor fawr yw'r bwlch digidol a chymaint sydd wedi'u hallgau'n ddigidol. Mae hyn yn cynnwys y sgiliau digidol o fewn y sector gwirfoddol yn ogystal ag ymhlith y bobl y mae'r sector yn gweithio gyda nhw. Mae oedran, tlodi a hil yn ddangosyddion allweddol ar gyfer allgau digidol.

Mae cwestiynau ynghylch ansawdd gwasanaethau wyneb yn wyneb pan maen nhw'n cael eu cyflwyno'n ddigidol, gan gynnwys rhwystrau ieithyddol (a diwylliannol) i ymgysylltu digidol effeithiol. Fodd bynnag, mae rhai mudiadau wedi defnyddio gwasanaethau digidol i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, felly mae'n gallu cael effaith gadarnhaol.

Mae'r sector gwirfoddol yn poeni hefyd y bydd comisiynwyr/cyllidwyr eisiau symud i ddigidol heb werthfawrogi y gallai fod yn wasanaeth gwaeth neu eisiau darpariaeth ddeuol heb gynnydd mewn cyllid i gyd-fynd â hyn.

Gall newid i ddigidol gael effaith bwysig ar y ffordd y mae elusennau'n rhedeg eu hunain. Ond gall hefyd newid y ffordd y maen nhw'n darparu gwasanaethau i'r bobl y maen nhw'n gweithio gyda nhw. Yn anffodus, mae perygl gwirioneddol y bydd rhai grwpiau yn ein cymdeithas yn cael eu hallgau o wasanaethau digidol – y rheini ar incymau isel, pobl hŷn a phobl nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg, er enghraifft. Mae pryder hefyd nad yw gwasanaethau digidol mor uchel eu hansawdd â gwasanaethau wyneb yn wyneb.

Er mwyn i ni allu elwa ar fuddion gwasanaethau digidol, dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Ehangu ei rhaglenni ar gyfer cynhwysiant digidol, gan gynnwys y rheini ar gyfer cael cysylltiad cyflym mewn mwy o leoedd a gwella sgiliau digidol ymhlith rhannau o'r boblogaeth sydd wedi'u hymyleiddio.

- Datblygu rhaglen i gefnogi mynediad rhad at gredyd ar gyfer cyfarpar digidol i'r bobl hynny sydd ei angen er mwyn eu galluogi i gael gwaith, hyfforddiant neu fynediad at wasanaethau.

- Cyhoeddi canllawiau ar gyfer comisiynwyr y sector gwirfoddol sy'n eu hatal rhag symud i ddigidol os bydd hyn yn arwain at ddarpariaeth o ansawdd is neu os bydd disgwyliadau i gynnig darpariaeth ddeuol am yr un gost.

Mae rôl gan seilwaith y sector gwirfoddol hefyd o ran cefnogi'r agenda hon. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda mudiadau seilwaith y sector gwirfoddol i gefnogi'r gwaith o gynyddu gallu digidol o fewn y sector er mwyn gwella'r ddarpariaeth o unrhyw wasanaethau digidol yn y dyfodol.

Gwydnwch y sector gwirfoddol

Mae'r sector yn profi colledion ariannol sylweddol, wrth hefyd weld cynnydd yn y galw am y gwasanaethau y mae'n ei ddarparu. Ledled y DU, amcangyfrifir y bydd elusennau yn colli 24% o gyfanswm eu hincwm am y flwyddyn, a phe

bai'r cyfartaledd hwnnw'n cael ei gymhwyso i'r sector yn gyffredinol, byddai hyn yn golled o £12.4 biliwn mewn incwm. Yng Nghymru, byddai hyn yn oddeutu £620 miliwn. Bydd y colledion ariannol hyn hefyd yn cael effaith fwy hirdymor ar y sector ac, yn y pen draw, ar y gymdeithas ehangach yn gyffredinol.

Nid yw'r cymorth gan Lywodraeth Cymru wedi cyd-fynd â'r cymorth cyfatebol y mae Llywodraeth y DU wedi'i rhoi i wasanaethau yn Lloegr (yn enwedig o ran y cymorth a dargedwyd at wasanaethau rheng flaen).

Mae elusennau'n debygol iawn o gau, neu uno. O ran mudiadau mwy o faint, efallai na fydd gostyngiad mewn cyllid yn golygu y bydd yn rhaid iddynt gau, ond bydd yn rhaid iddynt leihau eu gwaith a'u pobl. Mae amrediad eang o elusennau eisoes yn diswyddo nifer sylweddol o'u staff.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi ei bod yn rhagweld y bydd y sector gwirfoddol yn cymryd rhan yn y gwaith adfer. Gall y sector gwirfoddol gynorthwyo â phob rhan o'r gwaith adfer. Fodd bynnag, bydd hyn yn dod ar adeg pan mae adnoddau'r sector dan bwysau aruthrol. Mae angen daer i Lywodraeth Cymru ystyried sut bydd yn cefnogi gwaith y sector gwirfoddol ar y gwaith adfer hwn.

Bydd angen i'r sector addasu prosesau cyflenwi gwasanaethau a modelau sefydliadol, yn ogystal â gwella ei sgiliau a'i wydnwch ariannol. Bydd hyn yn gofyn am arloesedd o fewn y sector, yn ogystal â chymorth gan Lywodraeth Cymru. Dylai'r cymorth hwn gynnwys:

- Cefnogi estyniad arfaethedig y cynllun asedau segur er mwyn rhyddhau mwy o gyllid i Gymru, a bod y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i gynyddu lefel y cyllid gwaddoledig.

- Ehangu Cronfa Gwydnwch Trydydd Sector Cymru er mwyn cynorthwyo'r sector i gynyddu gwydnwch. Mae angen i'r cymorth ariannol addasu i'r galw newidiol, sy'n cynnwys osgoi heriau posibl yn ddiweddarach.

- Datblygu Cronfa Adfer ar gyfer y Sector Gwirfoddol er mwyn cynorthwyo mudiadau i gyfrannu at adferiad gwyrdd a chyfiawn.

- Cynorthwyo gwasanaethau'r seilwaith i adeiladu gwydnwch, gan gynnwys llywodraethu, gwasanaethau digidol, arallgyfeirio incwm a chyllid amgen.